Ar e-bost

Y Parchedig Ganon Evans
Cadeirydd CCYSAGauC

10 Rhagfyr 2024

Annwyl Barchedig Ganon Evans,

**Llythyr Cymwysterau Cymru at Gadeirydd CCYSAGauC mewn perthynas â TGAU Astudiaethau Crefyddol**

Rwy'n deall bod yr oedi wrth gyhoeddi manyleb derfynol ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol wedi peri rhywfaint o bryder i'r rhai a oedd yng nghynhadledd hydref CCYSAGauC yn ddiweddar.

Ym Mehefin 2023, cyhoeddodd Cymwysterau Cymru feini prawf cymeradwyo ar gyfer TGAU Gwneud-i-Gymru newydd, gan gynnwys TGAU Astudiaethau Crefyddol. Pan fyddant yn datblygu cymwysterau TGAU, rhaid i'r corff dyfarnu, CBAC, gydymffurfio â'r meini prawf cymeradwyo cyn y gallwn gymeradwyo eu manyleb ar gyfer y cymhwyster. Mae TGAU Astudiaethau Crefyddol yn rhan o'r don gyntaf o gymwysterau TGAU Gwneud-i-Gymru newydd, sy'n golygu y bydd y pynciau hyn ar gael i'w haddysgu am y tro cyntaf ym mis Medi 2025. Bydd yr ail don o gymwysterau TGAU ar gael i'w haddysgu gyntaf ym mis Medi 2026.
Cyhoeddodd CBAC y manylebau terfynol ar gyfer y mwyafrif o bynciau Ton 1 ym mis Medi, ond dim ond manyleb ddrafft a gyhoeddwyd ar gyfer TGAU Astudiaethau Crefyddol. Mae'r fanyleb derfynol bellach wedi'i chyhoeddi gan CBAC, a hynny ar 6 Rhagfyr 2024.
Teimlwn y byddai'n fuddiol egluro rhai o'r rhesymau pam fod manyleb Astudiaethau Crefyddol yn cael ei chyhoeddi'n hwyrach na'r pynciau Ton 1 eraill, fel Hanes a Daearyddiaeth.
Yn y fersiynau cynnar o'r cymhwyster drafft a gafwyd yng Ngwanwyn 2024, gwelodd CBAC fod creu cynnwys pwnc a oedd yn cydbwyso anghenion hyblygrwydd ysgolion (yn unol â dyheadau'r Cwricwlwm i Gymru) gydag eglurder y gofynion asesu yn fwy o waith na'r disgwyl. O ganlyniad, bu rhaid ail-ddrafftio cynnwys y fanyleb sawl gwaith dros Haf 2024, ac nid oedd modd i ni barhau i'r cam o gymeradwyo'r cymhwyster hwn, ac ni allai CBAC barhau â'r gwaith i ddatblygu'r deunyddiau asesu enghreifftiol.

Gwelodd CBAC hefyd ei bod yn anoddach na'r disgwyl i ddyfeisio cynnwys pwnc dilys ar gredoau anghrefyddol, yn unol â meini prawf cymeradwyo Cymwysterau Cymru, ac fe effeithiodd hyn ar eu gallu i ddatblygu deunyddiau asesu enghreifftiol hefyd. Cymerwyd gofal mawr wrth ystyried sut dylid cydbwyso safbwyntiau'r gwahanol grwpiau o randdeiliaid. Gan nad yw asesiad di-arholiad (a elwid gynt yn waith cwrs) wedi bod yn agwedd ar Astudiaethau Crefyddol TGAU ers blynyddoedd lawer, roedd dyfeisio asesiadau dilys a nodi'r

sgiliau perthnasol ar gyfer y pwnc yn unol â'r amcanion asesu newydd, sy'n rhan o'r meini prawf cymeradwyo, yn heriol.

Rhwng mis Ebrill a Thachwedd 2024, arweiniodd y materion uchod at orfod ail-ddrafftio’r manylebau a'r deunyddiau asesu sampl sawl gwaith, a bu'n rhaid eu cyflwyno i ni sawl gwaith cyn iddynt fodloni gofynion y meini prawf cymeradwyo. Cynhaliwyd cyfarfodydd rheolaidd rhyngom ni a CBAC i ddatrys yr anawsterau hyn. Rydym yn disgwyl i'r holl ddeunyddiau asesu enghreifftiol fod ar gael ym mis Ionawr 2025, ac er ein bod ni’n deall y byddai athrawon wedi hoffi cael golwg gynharach ar y dogfennau, mae’r cyfle dal yno i athrawon baratoi ar gyfer addysgu'r cymhwyster newydd a gafaelgar hwn. Mae CBAC hefyd yn cynllunio sesiynau dysgu proffesiynol i gefnogi athrawon i gyflwyno’r TGAU Astudiaethau Crefyddol.

Rwy'n gobeithio bod y llythyr hwn wedi helpu i egluro cefndir yr oedi a ddigwyddodd gyda’r TGAU Astudiaethau Crefyddol newydd. Cysylltwch â mi os hoffech chi gwrdd i drafod y mater hwn ymhellach.
Yn gywir,



Philip Blaker
Prif Weithredwr